# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 6 Rhagfyr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
5 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Prosiectau a Ariennir gan y Loteri

**C6 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y prosiectau a ariennir gan y Loteri yng ngogledd a de Cymru ar hyn o bryd? (OAQ14458)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg (Jenny Randerson):** Ers cyflwyno cyllid y Loteri yn 1995, mae Cymru wedi elwa o dros 10,000 o grantiau, gyda dros 2,400 yng ngogledd Cymru a thua 4,000 yn ne Cymru. Daw cyfanswm y grantiau ar draws Cymru i fwy na £480 miliwn.

### Methiant Canolfan y Celfyddydau Gweledol

**C7 Jocelyn Davies:** Beth fydd effaith ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Archwilio i fethiant Canolfan y Celfyddydau Gweledol ar drefniadau ariannu prosiectau celfyddydol yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ14576)

**Jenny Randerson:** Nid yw'n briodol i mi wneud sylw ar ymchwiliad y Pwyllgor Archwilio i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol hyd nes bo'r Pwyllgor wedi adrodd a'r Cabinet wedi ymateb i'w argymhellion. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon bod Cyngor y Celfyddydau yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith i atal hyn rhag digwydd eto. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn comisiynu adolygiad annibynnol o'i systemau grant ynghyd â'i drefniadau monitro a gwerthuso.

### Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

**C8 Peter Law:** A wnaiff y Gweinidog adroddiad ar hynt y cynllun mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru? (OAQ14460)

**Jenny Randerson:** Mae mynediad am ddim wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers ei gyflwyno ar 1 Ebrill. Mae ffigurau ymwelwyr yn wyth safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi codi tua 90 y cant, a miloedd o bobl o bob math wedi ymweld â'r amgueddfa na fuont erioed o'r blaen mae'n debyg.

### Cynorthwyo Ffotograffiaeth yng Nghymru

**C9 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gamau i gynorthwyo ffotograffiaeth yng Nghymru? (OAQ14512)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor y Celfyddydau yn noddi Ffotogallery, canolfan ffotograffiaeth genedlaethol Cymru. Yn 2000-01, daeth y gefnogaeth hon i dros £88,000. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi chwech o orielau datblygu eraill ledled Cymru sy'n arddangos gwaith ffotograffig.

Yn ogystal, bob blwyddyn mae Cyngor y Celfyddydau yn gweithredu rhaglen o gefnogi arddangosfeydd trwy gynllun grant i ariannu nifer fawr o arddangosfeydd ar draws Cymru. Mae hyn ar gost o dros £108,000 ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ffotograffiaeth ymhlith y mathau eraill o ffurfiau celfyddyd gweledol. Mae cynlluniau grant hefyd sy'n cefnogi artistiaid unigol, gan gynnwys ffotograffwyr.

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ14535) yn ôl.*

### Comisiwn Ffilm De Cymru

**C11 David Davies:** A yw'r Gweinidog yn cefnogi gwaith Comisiwn Ffilm De Cymru? (OAQ14533)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn mawr groesawu'r gwaith da y mae Comisiwn Ffilmiau De Cymru wedi'i wneud i ddenu gwneuthurwyr ffilmiau i'r ardal. Ffilmiwyd golygfeydd ar gyfer ffilm Bollywood eleni yn Stadiwm y Mileniwm. Caiff y Stadiwm ei gweld gan tua 40 miliwn o bobl ar draws India, y Deyrnas Unedig ac America.

### Polisi Iaith Gymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru

**C12 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y polisi iaith Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru? (OAQ14575)

**Jenny Randerson:** Mae mwy o ddiddordeb yn ddiau yn yr iaith Gymraeg yn y rhan yma o Gymru ac yr wyf yn croesawu hyn. Brîff Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw hybu a hwyluso'r iaith ledled Cymru. Mae mentrau iaith yn gweithio'n lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru.

### Cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Ddiwylliant Ewrop

**C13 Alun Cairns:** Sut y mae grant Lerpwl o bron i £1 miliwn o arian Ewropeaidd yn effeithio ar gynnig Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop? (OAQ14523)

**Jenny Randerson:** Nid yw Caerdydd o fewn ardaloedd Amcan 1 Cymru. Fodd bynnag, er bod Lerpwl yn elwa o arian Amcan 1 ychwanegol i gefnogi ei fid, mae gan Gaerdydd fanteision gwahanol, er yr un mor bwysig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Dinas a Chyngor Caerdydd wedi addo £1 miliwn rhyngddynt i gefnogi paratoad bid Caerdydd. Mae gan Gaerdydd hefyd statws unigryw fel prifddinas Cymru, mewn gwlad sy'n gyforiog o ddiwylliant gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Bydd y cynnydd ym mhrif grant Cyngor y Celfyddydau yn cael effaith sylweddol ar ddatblygu gwaith artistiaid ledled Cymru cyn 2008, ac mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cyhoeddi £2 miliwn pellach y flwyddyn i'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd pan fydd Canolfan Mileniwm Cymru yn weithredol. Yr wyf yn ffyddiog fod bid Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 yn argoeli'n dda iawn.

### Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru

**C14 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynlluniau ar gyfer oriel gelf genedlaethol i Gymru? (OAQ14527)

**Jenny Randerson:** Bydd sawl opsiwn ar gyfer arddangos y casgliad celf cenedlaethol yn ymddangos yn y papur ymgynghorol cyhoeddus sydd ar fin ei gyhoeddi gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Byddai'n amhriodol i mi achub y blaen ar ddarganfyddiadau'r amgueddfa ar hyn o bryd.

### Ariannu Opera Cenedlaethol Cymru

**C15 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cael ei ariannu? (OAQ14526)

**Jenny Randerson:** Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn cynnydd yn ei gyllideb o bron i £3 miliwn y flwyddyn nesaf ar ben y cynnydd o £1.3 miliwn a gytunwyd eisoes, gan ei alluogi i roi mwy o gefnogaeth i bob agwedd ar y celfyddydau yng Nghymru. Gofynnais i'r Cyngor roi blaenoriaeth i'r arian i sefydlogi Opera Cenedlaethol Cymru. Bydd y rhaglen sefydlogi yn galluogi'r Opera i osod y busnes ar sylfeini ariannol cadarn ac i atgyfnerthu ei weithgareddau trwy ailstrwythuro'n gynhwysfawr. Gofynnais i'r Cyngor hefyd sicrhau y caiff £75,000 ychwanegol ei roi i alluogi'r Opera i lwyfannu ail wythnos o berfformiadau sylweddol yn Abertawe.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Prosiectau Pysgota

**C3 Eleanor Burnham:** Sawl prosiect pysgota sydd wedi'i dderbyn ar gyfer cyllid Ewropeaidd? (OAQ14570) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru dan ei bortffolio datblygu economaidd.*

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Hyd yma, cymeradwywyd un prosiect pysgodfeydd ar gyfer arian offeryn ariannol cyfarwyddyd pysgodfeydd (FIFG), sef wythnos bysgod Sir Benfro, gyda chyfanswm cost y prosiect yn dod i £36,000 a grant o £15,090.

Cyflwynwyd dau brosiect arall ar gyfer arian FIFG, gyda chyfanswm grant y ceisiadau o £3,883,130. Mae cymhwyster y prosiectau hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

*Tynnwyd cwestiwn 4 (OAQ14484) yn ôl, atebwyd cwestiynau 5, 6 a 7 yn y Cyfarfod Llawn a thynnwyd cwestiwn 8 (OAQ14545) yn ôl.*

### Cynllun Adfywio Gwledig

**C9 Peter Black:** Pa adnoddau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer y cynllun adfywio gwledig?(OAQ14559)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Mae'r cynllun adfywio gwledig yn dynodi £60 miliwn o wariant newydd a £5 miliwn o wariant wedi'i ailflaenoriaethu i gynorthwyo'r economi gwledig.

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ14560) yn ôl.*

### Clwy'r Traed a'r Genau

**C11 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost mynd i'r afael â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru? (OAQ14464)

**Carwyn Jones:** Cyfrifoldeb Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r costau sy'n gysylltiedig â delio â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru. Daw cyfanswm y taliadau a dalwyd hyd yma, a gododd o agweddau ar weithredu difa'r clwyf, i £107,678,406, heb gynnwys costau staff y gwasanaeth sifil.

### Tir Gofal

**C12 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddar yng nghynllun Tir Gofal? (OAQ14571)

**Carwyn Jones:** Gan ymateb i'r anawsterau a achoswyd gan glwy'r traed a'r genau, cafodd y cyfnod ar gyfer gwneud trydydd cais ei ymestyn tan 31 Awst. Derbyniwyd cyfanswm o 1,205 o geisiadau, gyda

1,107 neu 92 y cant o'r rhain yn sgorio dros y trothwy o 100 pwynt. Mae hyn yn cymharu gyda chyfradd lwyddiant o 51 y cant yn y rownd gyntaf a 75 y cant yn yr ail rownd.

Yr ydym hefyd yn y broses o wneud cais am gymeradwyaeth Ewrop i wneud sawl addasiad i'r cynllun datblygu gwledig. Diben y rhain yw lleihau costau gweinyddol, sicrhau yr enillir y manteision amgylcheddol gorau bosib o'r adnoddau sydd ar gael, a bod ffermydd teuluol yn cael mynediad i'r cynllun. Mae'r addasiadau yn cynnwys mesurau a fydd yn ei gwneud yn haws i ystod ehangach o ffermydd gael mynediad i Dir Gofal, er enghraifft ffermwyr ifanc, ffermydd cymysg a ffermwyr sy'n fodlon cyflwyno ychydig o gnydau âr i'w systemau da byw.

**Iawndal i Ffermwyr (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel yr iawndal a dalwyd hyd yma i ffermwyr yng Nghymru o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau? (OAQ14471)

**Carwyn Jones:** Cyfrifoldeb Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r iawndal a delir i ffermwyr yng nghyswllt clwy'r traed a'r genau yng Nghymru. Hyd yn hyn, talwyd iawndal o £56,139,259 i ffermwyr Cymreig o dan y cynllun difa clwy'r traed a'r genau.

**Entrepreneuriaeth mewn Cymunedau Gwledig**

**C14 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae'r Cynulliad yn hwyluso mentergarwch ac entrepreneuriaeth mewn cymunedau gwledig? (OAQ14558)

**Carwyn Jones:** Mae'n rhaid gweld yr economi gwledig fel rhan annatod o economi ehangach Cymru. Mae 'Cymru ar ei Hennill', y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, a'r 'Cynllun i Gymru 2001' yn tanlinellu ein hymrwymiad i gefnogi menter ledled Cymru mewn modd cydlynol. Cyflawnir y targedau yn 'Cymru ar ei Hennill' trwy weithredu amrediad o strategaethau trwy gyrff arweiniol fel Awdurdod Datblygu Cymru, awdurdodau lleol, Dysgu ac Addysgu Cymru a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Yr ydym wedi cyhoeddi cynlluniau yng nghyswllt Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Amcanion 1, 2 a 3, LEADER+, a'r cynllun datblygu gwledig er mwyn sicrhau bod mentergarwch ac entrepreneuriaeth yn cael eu hwyluso mewn cymunedau Cymreig yng nghefn gwlad. Mae'r cynllun gweithredu mentergarwch hefyd yn rhaglen dros Gymru gyfan.

Ar 17 Medi, lansiais Cyswllt Ffermio i helpu hyrwyddo arallgyfeirio ar ffermydd a datblygiad busnesau fferm ac, ar 21 Tachwedd, cyhoeddais strategaeth ar ddyfodol ffermio yng Nghymru.

Bydd drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cynnwys arweiniad ar gyfer yr economi gwledig, gan gynnwys anogaeth i arallgyfeirio yng nghefn gwlad. Mae'r ddogfen derfynol wrthi'n cael ei pharatoi yn barod i'w chyhoeddi ym Mawrth 2002.

**Marchnata Cynnyrch Fferm yn y DU a Thramor**

**C15 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian a wariwyd gan y Cynulliad ar farchnata cynnyrch fferm o Gymru yn y DU a thramor yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (OAQ14468)

**Carwyn Jones:** Mae gan Gyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol dros hyrwyddo bwyd. Yn 2000-01, dyrannwyd £3.8 miliwn o brif grant yr Awdurdod ar gyfer datblygiadau amaeth-bwyd, gyda dros £1.8 miliwn yn mynd tuag at hyrwyddo bwyd. Sicrhaodd yr Awdurdod £600,000 pellach gan Ewrop. Yn ychwanegol, dyrannwyd £2 miliwn ar gyfer y cynllun datblygu marchnata a'r cynllun grant ar gyfer prosesu a marchnata.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Rhwydweithiau Telathrebu

**C4 Alun Cairns:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod busnesau ym mhob rhan o Gymru yn gallu manteisio ar ddigon o rwydweithiau telathrebu o ansawdd, ac sy'n gallu ymdrin â llif data? (OAQ14478) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Mae 'Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales' yn nodi'r ymrwymiad i sicrhau fod gan Gymru seilwaith telathrebu sydd o fewn cyrraedd ac yn fforddiadwy i bawb.

Mae ystod o brosiectau wedi eu cefnogi gennym sy'n cynnwys llinyn 6 o brosiect Llwybr/Pathway a'r rhwydwaith amlasiantaeth ardal wledig (MARAN), sydd hefyd yn rhan o Llwybr. Byddwn yn symud ymlaen gyda phrosiectau pellach fel rhan o gynllun gweithredu'r adroddiad dadansoddi, a fydd ar gael fis nesaf.

*Atebwyd cwestiynau 5, 6 a 7 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Telefeddygaeth a Mentrau E-iechyd

**C8 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o delefeddygaeth a mentrau e-iechyd yng Nghymru? (OAQ14538)

**Andrew Davies:** Mae dros 30 o esiamplau o gynlluniau telefeddygaeth ac e-iechyd yng Nghymru yn ymdrin ag amrediad eang o ddisgyblaethau clinigol. Ar 4 Gorffennaf eleni, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gychwyn dau brosiect arddangos telefeddygaeth arloesol, un i Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ar gyfer dermatoleg a gwasanaethau mân anafiadau, a'r ail i Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ar gyfer gwasanaethau mân anafiadau, dros Sir Benfro a Phowys. Bydd y ddau brosiect yn cynnig gwasanaethau a ddarperir gan nyrsys yn lleol, gan roi gofal i gleifion yn gynt.

Bydd y prosiectau arddangos hyn yn gwneud cyfraniad helaeth i ddatblygiad strategaeth delefeddygaeth ac e-iechyd, sydd i'w chwblhau ym Mai 2002. Cyflwynir y strategaeth hon i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gymeradwyaeth.

Mae nifer o brosiectau a chynlluniau eraill yn cael eu hystyried am gefnogaeth gan fwrdd rhaglenni telefeddygaeth a thelegofal Cymru gyfan.

### TUC Cymru (Hybu Llythrennedd TGCh)

**C9 Brian Gibbons:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau gyda TUC Cymru ar hyrwyddo llythrennedd TGCh ymhlith y gweithlu? (OAQ14500)

**Andrew Davies:** Hyd yma ni chefais unrhyw gyswllt uniongyrchol gyda chynrychiolwyr TUC Cymru i drafod y mater hwn, ond yr wyf wedi'i drafod gyda chynrychiolwyr undebau unigol. Mae hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu sgiliau TGCh yn y gweithle yn brif flaenoriaeth gan y Cynulliad o dan 'Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales'. Credaf ei bod yn hanfodol bod y Cynulliad yn parhau i weithio gyda TUC Cymru i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y gweithle ac i adeiladu ar y prosiectau a sefydlwyd eisoes trwy gronfa ddysgu undebol Cymru.

### Teleweithio

**C10 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â thwf (heblaw am ganolfannau galw) teleweithio yng Nghymru? (OAQ14506)

**Andrew Davies:** Mae ‘Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales’ yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i wneud Cymru yn wlad wych i fyw a gweithio ynddi. Cafodd arolwg gweithlu 2001 y gwanwyn bod 7.3 y cant o’r rhai mewn gwaith yng Nghymru yn gweithio mewn teleweithio. Yr oedd hyn yn cymharu gyda 4.9 y cant yng ngwanwyn 1998.

### Dysgu o Bell drwy gyfrwng Band Llydan (Ardaloedd Gwledig)

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi sylwadau ar beth sydd wedi’i wneud i annog pobl yn ardaloedd gwledig Cymru i ystyried dysgu o bell drwy gyfrwng band llydan? (OAQ14501)

**Andrew Davies:** Mae datblygu gwasanaethau a systemau gwybodaeth yn hanfodol i hyrwyddo gwell datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliant. Mae ‘Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales’, fframwaith strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn arwain at ffordd i sicrhau fod gan Gymru system o’r radd flaenaf ar gyfer hybu’r economi, creu cymdeithas well a thecach yng Nghymru ac ar gyfer meithrin defnydd o’r iaith Gymraeg. Mae darparu seilwaith band llydan ledled Cymru yn flaenoriaeth bwysig iawn. Gwneir hyn trwy grynhoi’r galw yn y sector cyhoeddus a fydd, yn ei dro, yn arwain at fwy o alw am wasanaethau telathrebu uwch yng Nghymru. Mae hyn oll yn adeiladu ar waith llwyddiannus Llwybr a’r rhwydwaith amlasiantaeth ardal wledig (MARAN).

### Dargludo Band Llydan a Theledu Digidol

**C12 Brian Hancock:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i integreiddio’r angen i Gymru gyfan ddargludo band llydan a’r angen i sicrhau y bydd pob rhan o Gymru yn gallu derbyn teledu digidol pan fydd y gwasanaeth analog yn dod i ben? (OAQ14504)

**Andrew Davies:** Hoffwn eich cyfeirio at yr ateb a roddais i gwestiwn atodol a ofynnwyd gan Janice Gregory yn y Cyfarfod Llawn heddiw yng nghyswllt yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i brysuro’r broses o sicrhau fod band llydan o fewn cyrraedd ac yn fforddiadwy i bawb yng Nghymru. Yr wyf yn llawn gydnabod y bydd argaeledd eang teledu digidol ledled Cymru yn sicrhau y bydd band llydan ar gael i fwyafrif llethol y boblogaeth. Fodd bynnag, mae’n rhaid mesur hyn yn erbyn gofynion darlledu pobl Cymru. Gwn fod Jenny Randerson wedi ymrwymo i sicrhau nad yw teledu analog yn cael ei ddiffodd yng Nghymru hyd nes y bydd signalau ac offer digidol yn fforddiadwy ac o fewn cyrraedd pawb.

### Hyfforddiant TGCh a Thechnolegau Rhyngrwyd

**C13 Alun Cairns:** Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod busnesau ym mhob rhan o Gymru â mynediad i hyfforddiant TGCh a thechnolegau rhyngrwyd? (OAQ14497)

**Andrew Davies:** Mae addysg ac hyfforddiant yn un o bum byrdwn allweddol ‘Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales’. Mae ystod eang o ddarpariaeth ddysgu yn yr ardaloedd hyn ar gael trwy Dysgu ac Addysgu Cymru i helpu busnesau gwella sgiliau eu gweithlu. Hefyd, gall pobl sy’n byw yng Nghymru ddefnyddio cyfrif dysgu unigol, gyda rhai cyrsiau TGCh yn gymwys ar gyfer disgownt o 80 y cant oddi ar eu cost.

### Hyrwyddo Cymru yn y Farchnad Ryngwladol trwy gyfrwng TGCh

**C14 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y caiff Cymru ei hyrwyddo yn y farchnad ryngwladol trwy gyfrwng TGCh? (OAQ14498)

**Andrew Davies:** Lansiwyd pecyn o ddeunydd marchnata am Gymru ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni. Mae’r deunydd yn cynnwys CD-ROM rhyngweithiol a’r wefan *Wales World Nation*. Datblygir y cynllun hwn ymhellach a bydd y wefan yn dod yn rhan o borth gwe rhyngwladol yn darparu mynediad i wybodaeth i bobl dramor yn ddi-oed.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ14539) yn ôl.*